

## 2014 Rhif 158 (Cy. 19)

### TRAFFIG FYRDD, CYMRU

#### Gorchymyn Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A, Magwyr i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29, Cas-bach, Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 50mya Dros Dro) 2014

*Gwnaed* 28 Ionawr 2014

*Yn dod i rym* 31 Ionawr 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y draffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi(2)arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### **Enwi, Dehongli a Chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Ionawr 2014. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A, Magwyr i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29, Cas-bach, Casnewydd) (Terfyn Cyflymder 50mya Dros Dro) 2014.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn :

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “y darnau o'r draffordd” (“*the lengths of the motorway*”) yw'r darnau hynny o'r draffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20.00 o'r gloch ar 31 Ionawr

2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Cyfyngiad**

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen.

### **Atal Dros Dro**

4. Mae darpariaethau Rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) (1974) (3), i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen, drwy hyn yn cael eu hatal yn ystod yr adegau y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

5. Atelir drwy hyn ddarpariaethau Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man i'r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i Fan i'r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach) (Terfynau Cyflymder Amrywiol) 2011(4) i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

### **Cymhwyso**

6. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Ionawr 2014

*R Morgan*

**R MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

CERTIFIED TRUE COPY – WELSH MINISTERS-  
TRACY THOMAS 0 28.01.14

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (3) O.S. 1974/502
- (4) O.S. 2011/94/W19

**YR ATODLEN**

i) Y darn hwnnw o Draffordd yr M4 sy'n ymestyn o bwynt 940 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt isbont Langstone Court i gyfeiriad y gorllewin at ganolbwynt trosbont Christchurch Hill.

ii) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr M4 sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Glasllwch Lane i gyfeiriad y gorllewin at ganolbwynt tanffordd Cefn Llogell.